



Y Drefn ar gyfer Confyrmasiwn (Bedydd Esgob)

2017

The Order for Confirmation



Y Drefn ar gyfer Conffyrmasiwn (Bedydd Esgob)

2017



The Order for Confirmation

2017

Y Drefn ar gyfer Conffyrmasiwn

Nodiadau Cyffredinol

1. Mae conffyrmasiwn yn rhoi cyfle i'r rhai a fedyddiwyd i ymateb yn gyhoeddus i'r alwad a wnaed ar eu bywydau yn y bedydd. Mae hefyd yn gydnabyddiaeth eu bod hwy, ynghyd â'r esgob a Christnogion eraill, yn rhan o gymdeithas ehangach sy'n perthyn i'r un Eglwys lân, gatholig ac apostolig. Dengys conffyrmasiwn fod yr Eglwys yn dymuno gweddio dros eu haelodau a'u cadarnhau a chyd-deithio â hwy ar ffordd y ffydd, gan ddeisyf ar i'r Ysbryd Glân eu cyflenwi fwyfwy beunydd.
2. Fel rheol dylai gwasanaethau Ynydiad Cristnogol ddigwydd mewn gwasanaeth cyhoeddus ar y Sul.
3. Esgob fydd, bob amser, yn gweinyddu yng ngwasanaeth y Bedydd ynghyd â Chonffyrmasiwn. Gall esgob neu offeiriad weinyddu ym Medydd Cyhoeddus Babanod ond, pan nad oes un ohonynt yn bresennol, mae'n gyfreithlon i ddiakon fedyddio. (Gweler hefyd Nodyn 10 isod ynghylch bedydd pan fo angen brys.)
4. 'Rhieni bedydd' yw'r term am y sawl a gytunodd i gyflwyno plant i'w bedyddio a pharhau i'w cefnogi wedi hynny. 'Cefnogwr' yw'r sawl sy'n cytuno i gefnogi ymgeiswyr (o unrhyw oedran) am fedydd a chonffyrmasiwn neu gonffyrmasiwn yn unig. Nid oes rhaid i ymgeisydd ddewis yr un person yn riant bedydd ac yn gefnogwr. Rhaid i rieni bedydd a chefnogwyr fod yn Gristnogion bedyddiedig a, chyn belled ag sy'n bosibl, yn gymunwyr ffyddlon yn yr Eglwys yng Nghymru neu mewn Eglwys sydd mewn cymundeb â hi.
5. Dylid darllen y priod Golectau a'r Darlleniadau ar y Suliau a'r Gwyliau a restrir yn grwpiau I a II yn y Calendr Newydd (2003). Ar achlysuron eraill darllener y Colectau a'r Darlleniadau a restrir yn Nhrefn Bedydd ynghyd â Chonffyrmasiwn ac yn Nhrefn Bedydd Cyhoeddus Babanod.
6. Mae trochi neu daenellu deirgwaith yn hen arfer gan yr Eglwys, a dilyn yr arfer honno sydd orau am ei bod yn tystio i'r ffydd Drindodaidd y bedyddir yr ymgeiswyr iddi. Er hynny mae trochi neu daenellu unwaith yn gyfreithlon a dilys. Mae'n bwysig bod digon o ddŵr: digon, o leiaf, i lifo dros groen yr ymgeisydd.
7. Os nad oes sicrwydd bod ymgeisydd wedi ei fedyddio â dŵr yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân dylid dweud y geiriau canlynol wrth fedyddio: 'E, oni'th fedyddiwyd di eisoes, yr wyf yn dy feddyddio yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.**
8. Bendithir yr olewau sanctaidd gan yr esgob bob blwyddyn yn Nhymor y Dioddefaint. Mater o ddewis yw eu defnyddio yn y gwasanaethau hyn.
9. Awgrymir cynnwys emynau, salmau a chaneuon addas eraill, fel sy'n briodol i amgylchiadau lleol, pan ddeuir at un neu'r cwbl o'r manau canlynol: wrth i'r gweinidogion ddod i mewn, rhwng y darlleniadau, wedi'r Nodi ag arwydd y Groes (onibai bod yr esgob neu'r offeiriad sy'n

The Order for Confirmation

General Notes

- 1 For those who are baptized, confirmation provides the opportunity to respond publicly to the call that baptism has made on their lives and is the acknowledgement that, as Christians, they are part of a wider fellowship with the bishop in the one, holy, catholic and apostolic Church. Confirmation is a sign that the Church wishes to pray for its members, to affirm them and accompany them on their journey of faith, in which the strengthening of the Holy Spirit is sought for them.
- 2 Christian Initiation should normally be administered in the course of public worship on a Sunday.
- 3 The minister of Baptism with Confirmation is always a bishop. The minister at the Public Baptism of Infants may be a bishop or a priest. In the absence of either, it is lawful for a deacon to baptize. (See also Note 10 below on emergency baptism.)
- 4 The term 'godparents' is used to denote those asked to present children for baptism and to continue to support them. The term 'sponsor' is used to denote those who agree to support candidates (of any age) for baptism and/or confirmation. It is not necessary for a candidate to have the same person as godparent and sponsor. Godparents and sponsors must be baptized Christians, and it is desirable that they should be regular communicants of the Church in Wales or of a Church in communion with it.
- 5 The proper Collect and Readings should be used on the Sundays and Holy Days listed in groups I and II in the New Calendar (2003). On other occasions, the Collect and Readings listed in the Orders for Baptism with Confirmation and the Public Baptism of Infants may be used.
- 6 The threefold administration of the baptismal water (by dipping or pouring) is an ancient practice of the Church and is commended as testifying to the Trinitarian faith in which candidates are baptized. A single administration is, however, lawful and valid. The use of a substantial amount of water is desirable; water must at least flow on the skin of the candidate.
- 7 If it is not certain whether a person has been baptized with water in the Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit, the form of words at the baptism shall be: 'N, if you have not already been baptized, I baptize you in the Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. **Amen.**'
- 8 The holy oils are blessed each year by the bishop during Passiontide. Their use in these Orders is optional.
- 9 The use of hymns, psalms and other suitable songs is suggested, as appropriate to local circumstances, at any or all the following points: during the entry of the ministers, between the readings, after the Signing with the Cross (unless the officiating bishop or priest, the candidates and their sponsors/godparents are already at the font) and during the lighting and

gweinyddu, yr ymgeiswyr a'u cefnogwyr /rhieni bedydd, eisoes wrth y fedyddfau) ac yn ystod cynnwau a dosbarthu'r canhwylau bedydd, yn enwedig pan fydd nifer mawr o ymgeiswyr wedi eu bedyddio neu wedi eu bedyddio ac yn cael eu conffirmio.

- 10 Pan fo'n fater o frys gall person lleyg fedyddio. Ceir manylion pellach yn Atodiad I o'r Drefn ar gyfer Bedydd ynghyd â Chonffyrmasiwn ac Atodiad I o'r Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.

distribution of baptismal candles, particularly when a large number of candidates has been baptized or baptized and confirmed.

- 10 In an emergency, a layperson may be the minister of baptism. Further details are given in Appendix I to the Order for Baptism and Confirmation and Appendix I to the Order for the Public Baptism of Infants.

Trefn ar gyfer Bedydd ynghyd â Chonffyrmasiwn

Nodiadau

Ni ddylid darllen y Nodiadau hyn heb ddarllen hefyd y Nodiadau Cyffredinol ar dudalen 1.

1. Fel arfer, bydd Bedydd ynghyd â Chonffyrmasiwn yn rhan o wasanaeth y Cymun Bendigaid ond, os na fydd Cymun, ceir darpariaeth yn Adran 6.
2. Pan gonffyrmir oedolion sydd eisoes wedi eu bedyddio, hepgorer adran 3(3)
3. Lle bo ymgeiswyr am Fedydd rhodder adrannau 3(2), 3(4), 3(5) a 3(6)* o'r Drefn ar gyfer Bedydd i mewn i'r Drefn hon, lle mae adran 3(3).
4. Os nad oes conffyrmasiwn yn y gwasanaeth bedyddio plant, dylid defnyddio'r Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.

Mae'r Drefn honno'n darparu ar gyfer plant nad ydynt yn ddigon hen i ateb drostynt eu hunain, fel bo modd iddynt gael eu bedyddio ar yr un pryd â'u rhieni neu oedolion eraill o'r teulu.

Dan yr amgylchiadau hynny symuder y pum cwestiwn sydd yn Adran 1 o'r Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod, ac a ofynnir i'r rhieni a'r rhieni bedydd, i Adran 1 o'r Drefn *hon*, rhwng cwestiwn yr esgob i'r rhai a gonffyrmir a'i gwestiwn i'r gynulleidfa.

Y rhieni a'r rhieni bedydd fydd yn ateb, bob tro, ar ran y plant. Dylid bedyddio'r plant yn union wedi oedolion eu teulu.

5. Mater i'w drafod rhwng yr esgob a'r offeiriad plwyf yw union drefn y gwasanaeth.

Mewn gwasanaeth Bedydd mae cyfle i'r esgob, yn Adran 3(2) o'r Drefn ar gyfer Bedydd, wahodd cefnogwyr yr ymgeiswyr (a rhieni a rhieni bedydd plant bach) i gymryd rhan yn y Nodi ag arwydd y Groes.

Yn Adran 3(2) gall yr ymgeiswyr gyffesu'r ffydd Drindodaidd drwy adrodd Credo'r Apostolion. Bryd hynny hepgorir tri chwestiwn yr esgob. Wedi i'r ymgeiswyr ddweud y Credo dylai'r esgob fynd rhagddo a dweud: *Dyma ffydd yr Eglwys*, a bydd y gynulleidfa'n ateb yn ôl yr hyn a geir ar y daflen.

Gall yr esgob roi'r hawl i fedyddio i weinidog cyfreithlon arall

6. Os defnyddir olewau sanctaidd gellir eneinio'r ymgeiswyr am fedydd â'r olew olewydden pur, a elwir yn olew disgyblion bedydd, naill ai ar ddiwedd Adran 3(1) neu wrth nodi ag arwydd y Groes yn Adran 3(2), a gellir defnyddio crism naill ai yn ôl y cyfarwyddyd ar ddiwedd Adran 3(5), neu yn Adran 3(7) ar yr un pryd â'r weddi sy'n dechrau: *Cyfnërtha, O Arglwydd dy was/wasanaethferch*...Ni ddylid eneinio â chrism y rheini sy'n cael eu bedyddio a'u conffyrmio, ar ddiwedd Adran 3(5).

An Order for Baptism with Confirmation

Notes

These Notes should be read in conjunction with the General Notes on page 1.

- 1 Baptism with Confirmation normally takes place in the context of the Holy Eucharist. Provision is made in Section 6 for occasions when the Eucharist is not celebrated.
- 2 When previously baptized adults are to be confirmed, section 3(3) is omitted.
- 3 Where there are candidates for Baptism, sections 3(2), 3(4), 3(5) and 3(6)* from the Order for Baptism are inserted at section 3(3) of this order.
- 4 If the baptism of children is to be administered without confirmation, the Order for the Public Baptism of Infants should be used.

This Order makes provision for children who are not old enough to answer for themselves to be baptized at the same time as their parents or other adult family members.

In these circumstances, the five questions to the parents and godparents from Section 1 of the Order for the Public Baptism of Infants should be inserted into Section 1 of this Order between the bishop's question to those being confirmed and the bishop's question to the congregation.

All responses are made on behalf of the children by their parents and godparents, and it is fitting that the children should be baptized immediately after the adult members of their families.

5. The detailed ordering of the service should be a matter for consultation between the bishop and the parish priest.

Where Baptism is administered, in Section 3(2) of the order for Baptism, the bishop may invite candidates' sponsors (and, in the case of small children, their parents and godparents) to take part in the Signing with the Cross.

In Section 3(2), the candidates may profess the Trinitarian faith by reciting the Apostles' Creed. In this case, the bishop's three questions are omitted. After the candidates have said the Creed, the bishop should continue with the words *This is the faith of the Church* to which the congregation replies in the manner indicated.

The bishop may delegate the act of baptism to another lawful minister.

6. If the holy oils are used, the candidates for baptism may be anointed with the pure olive oil known as the oil of catechumens either at the end of Section 3(1) or at the signing with the cross in Section 3(2), and chrism may be used either as indicated at the end of Section 3(5) or in Section 3(7) in conjunction with the prayer beginning *Confirm, O Lord, your servant...* Candidates who are being both baptized and confirmed should not be anointed with chrism at the end of Section 3(5).

1. Y DOD YNGHYD.

Yn Enw'r Tad,
a'r Mab,
a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi
a'th gadw di yng nghariad Crist.

Neu, yn nhymor y Pasg

Alelwia! Atgyfododd Crist.
Atgyfododd yn wir. Alelwia!

Mae'r esgob yn dechrau'r gwasanaeth â'r geiriau hyn:

Yr ydym wedi dod ynghyd i ddathlu'r newyddion da am ddatguddiad Duw yng Nghrist, a'r ymateb a roddir, mewn ffydd, gan y sawl sy'n ceisio bedydd (*a chonffyrmasiwn*). Yr ydym yn ailddatgan ein croeso i bawb sy'n dymuno bod yn ddisgyblion i Grist, ac yn llawenhau ein bod yn gyd-aelodau yng Nghorff Crist. Gofynnwn am ras Duw a'i fendith ar y sawl a fedyddir (*ac a gonffymir*) ac am weinidogaeth adfywiol yr Ysbryd Glân yn eu bywydau.

Saif yr ymgeisydd / ymgeiswyr a'r cefnogwyr gerbron yr esgob, a gall y sawl a benodwyd gyflwyno pob un wrth ei enw:

Barchedig *Dad yn Nuw / Fam yn Nuw*, cyflwynaf iti'r ymgeisydd / ymgeiswyr hyn ar gyfer conffyrmasiwn.

Gofynna'r esgob i'r ymgeisydd / ymgeiswyr:

E (ac E) a wyt ti / ydych chi yn dymuno cael dy gonffyrmio / eich conffyrmio?
Ydwyf / Ydym.

Gofynna'r esgob i'r gynulleidfa:

A wnewch chwi groesawu'r ymgeisydd / ymgeiswyr hyn am gonffyrmasiwn, a bod yn hael eich cymorth tra *bydd / byddant* yn byw'r bywyd newydd yng Nghrist?
Â chymorth Duw, fe wnawn.

1. THE GATHERING.

In the Name of the Father,
and of the Son,
and of the Holy Spirit. **Amen.**

Grace and peace be with you
and keep you in the love of Christ.

Or, in Eastertide,

Alleluia! Christ is risen.
He is risen indeed. Alleluia!

The bishop may introduce the service with the following.

We have come to celebrate the good news of God in Christ, and the response of faith to be made by those who come to be (baptized and) confirmed. We reaffirm our welcome to all those who seek to be disciples of Christ, and celebrate our membership together in the Body of Christ. For those who are to be (baptized and) confirmed we seek God's grace and blessing and the renewed ministry of the Holy Spirit in their lives.

The candidates stand with their sponsors in front of the bishop. The person appointed may first name the candidates.

Reverend Father / Mother in God, I present to you *these persons* that *they* may be confirmed.

The bishop asks the candidates:

N (and N), is it your wish to be confirmed?
It is.

The bishop asks the congregation:

Will you welcome these candidates for confirmation and do your best to uphold them in their life in Christ?
With the help of God, we will.

Mae'r esgob yn annerch yr ymgeisydd / ymgeiswyr â'r geiriau hyn, neu eu tebyg:

Annwyl gyfeillion / frodyr a chwiorydd yng Nghrist, yr ydych wedi datgan eich dymuniad i ymateb i alwad Duw trwy *gael eich bedyddio / gadarnhau eich addewidion Bedydd*. Yn y Bedydd mae Duw yn hawlio ei bobl yn eiddo iddo'i hun a'u gwneud yn rhan o'r Eglwys, Corff Crist. Drwy'r gosod dwylo a thrwy weddi cewch eich cyfnerthu gan yr Ysbryd Glân; bydd ef yn eich cadarnhau, eich cryfhau a'ch arwain yn eich bywyd Cristnogol. Ar ran yr Eglwys yr wyf fi, yr esgob, yn eich croesawu i mewn i berthynas ddyfnach â holl gorff Crist. Drwy ras Duw cewch nerth i barhau ar eich taith yn y ffydd ac i fod yn ddisgyblion diwyd yng ngwaith cenhadol Eglwys bererin Dduw.

Gellir defnyddio'r Colect isod:

Dad nefol,
trwy nerth dy Ysbryd Glân
yr wyt yn rhoddi i'th bobl ffyddlon
fywyd newydd yn nŵr y bedydd:
cyfarwydda a chyfnertha ni drwy'r un Ysbryd,
fel y bo i ni a ailenir, dy wasanaethu mewn ffydd a chariad
a thyfu i lawn faintioli dy Fab Iesu Grist,
sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân,
yn un Duw, yn awr ac am byth. **Amen.**

2. CYHOEDDI'R GAIR.

Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, gellir dewis darlleniadau addas o blith y rhai a restrir isod:

DARLLENIAD O'R HEN DESTAMENT:

Genesis 7. 17-23	Y Dilyw.
Exodus 14. 19-31	Croesi'r Môr Coch.
Exodus 20. 1-17	Y Deg Gorchymyn.
Deuteronomium 30. 15-20	Dewis rhwng dwy ffordd.
2 Brenhinoedd 5. 1-15a	Iacháu Naaman.
Eseia 44. 1-5	Yr addewid i was Duw.
Eseia 55. 1-11	Gwahodd y sychedig.
Jeremeia 31. 31-34	Y cyfamod newydd.
Eseciel 36. 25-28	Calon newydd, ysbryd newydd.
Eseciel 37. 1-10	Dyffryn yr esgyrn sychion.

Darllenydd: Dyma air yr Arglwydd **NEU** Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr Eglwys

Diolch a fo i Dduw.

The bishop addresses the candidates in these or similar words:

Dear *friends/brothers and sisters in Christ*, you have declared your wish to respond to God's call by (being baptized or by) confirming your Baptismal promises. Through Baptism, God claims his people as his own, and makes them part of the Church, the Body of Christ. Through the laying on of hands and prayer you will be strengthened by the Holy Spirit, who confirms, strengthens and guides you in your Christian discipleship. On behalf of the Church, I, as bishop, welcome you into deeper fellowship with the whole body of Christ. By the grace of God, you will be enabled to continue on your journey of faith, committed to the mission of God's pilgrim Church as active disciples.

The following Collect may be used:

Heavenly Father,
by the power of your Holy Spirit
you give to your faithful people
new life in the water of baptism:
guide and strengthen us by the same Spirit,
that we who are born again may serve you in faith and love
and grow into the full stature of your Son Jesus Christ,
who is alive and reigns with you and the Holy Spirit,
one God, now and for ever. **Amen.**

2. THE PROCLAMATION OF THE WORD.

Except on the occasions specified in General Note 4, appropriate readings may be selected from those listed below.

AN OLD TESTAMENT READING:

Genesis 7. 17-23	The Flood.
Exodus 14. 19-31	The crossing of the Red Sea.
Exodus 20. 1-17	The Ten Commandments.
Deuteronomy 30. 15-20	The choice of two ways.
2 Kings 5. 1-15a	The healing of Naaman.
Isaiah 44. 1-5	The promise to the servant of God.
Isaiah 55. 1-11	An invitation to the thirsty.
Jeremiah 31. 31-34	The new covenant.
Ezekiel 36. 25-28	New heart, new spirit.
Ezekiel 37. 1-10	The valley of dry bones.

Reader: This is the word of the Lord **OR** Hear what the Spirit is saying to the Church
Thanks be to God.

DARLLENIAD O'R TESTAMENT NEWYDD:

Actau 8. 14-17	Bedydd a dawn yr Ysbryd.
Actau 16. 25-34	Ceidwad y carchar yn Philipi.
Rhufeiniaid 6. 3-11	Marw a chyfodi yng Nghrist.
Rhufeiniaid 8. 11-17	Ysbryd mabolaeth.
1 Corinthiaid 12. 4-13	Llawer o ddoniau, un Ysbryd.
1 Corinthiaid 12. 12-13	Un corff yng Nghrist
Galatiaid 4. 3-7	Abba, Dad.
Galatiaid 5. 16-25	Cnawd ac Ysbryd.
1 Pedr 2. 4-10	Pobl Dduw.

Darllenydd: Dyma air yr Arglwydd **NEU** Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr Eglwys

Diolch a fo i Dduw.

YR EFENGYL

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant ...

Gogoniant i ti, O Arglwydd.

Mathew 5. 1-12	Y Gwynfydau.
Mathew 16. 24-27	Disgyblion Crist.
Mathew 25. 31-46	Barnu'r Cenhedloedd.
Mathew 28. 16-20	Y comisiwn olaf.
Marc 1. 1-11	Bedydd Iesu.
Marc 1. 14-20	Y disgyblion cyntaf.
Luc 24. 45-diwedd	Tystion.
Ioan 3. 1-8	Nicodemus.
Ioan 15. 1-11	Y wir winwydden.

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Moliant i ti, O Grist.

Y Bregeth

A NEW TESTAMENT READING:

Acts 8. 14-17	Baptism and the gift of the Spirit.
Acts 16. 25-34	The jailer at Philippi.
Romans 6. 3-11	Dying and rising in Christ.
Romans 8. 11-17	The spirit of sonship.
1 Corinthians 12. 4-13	Many gifts, one Spirit.
1 Corinthians 12. 12-13	One body in Christ.
Galatians 4. 3-7	Abba, Father.
Galatians 5. 16-25	Flesh and Spirit.
1 Peter 2. 4-10	The people of God.

Reader: This is the word of the Lord **OR** Hear what the Spirit is saying to the Church

Thanks be to God.

THE GOSPEL

Listen to the gospel of Christ according to Saint ...

Glory to you, O Lord.

Matthew 5. 1-12	The Beatitudes.
Matthew 16. 24-27	The disciples of Christ.
Matthew 25. 31-46	The marks of mission.
Matthew 28. 16-20	The final commission.
Mark 1. 1-11	The baptism of Jesus.
Mark 1. 14-20	The first disciples.
Luke 24. 45-end	Witnesses.
John 3. 1-8	Nicodemus.
John 15. 1-11	The true vine.

This is the Gospel of the Lord.

Praise to you, O Christ.

The Sermon

3. LITWRGI'R CONFFYRMASIWN

(1) Y Penderfyniad.

Mae'r esgob yn annerch yr ymgeiswyr a'r cefnogwyr:

Yr ydych wedi datgan eich dymuniad i gael eich conffyrmio, felly gwahoddwn chwi yn awr i ymateb i alwad Crist.

A ydych yn troi at Grist?

Yr wyf yn troi at Grist.

A ydych yn edifarhau am eich pechodau?

Yr wyf yn edifarhau am fy mhechodau.

A ydych yn ymwrthod â'r drwg?

Yr wyf yn ymwrthod â'r drwg.

(2) Cyffesu'r Ffydd.

Fe'ch gwahoddwn yn awr i gyffesu'r ffydd Gristnogol.

A ydych yn credu yn Nuw Dad, Creawdwr pob peth?

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad.

A ydych yn credu yn ei Fab Iesu Grist, Gwaredwr y byd?

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Fab.

A ydych yn credu yn yr Ysbryd Glân, yr Arglwydd, Rhoddwr bywyd?

Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw'r Ysbryd Glân.

Mae'r esgob yn annerch y gynulleidfa:

Dyma ffydd yr Eglwys.

Dyma'n ffydd ni.

Yr ydym yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,

Tad, Mab ac Ysbryd Glân.

(3) Y Bedydd

Os oes ymgeiswyr i'w bedyddio, gwneir hynny yn awr.

(i) Y Nodi ag arwydd y Groes

Â'r esgob rhagddo:

Drwy ei groes a'i werthfawr waed bu i'n Harglwydd Iesu Grist waredu'r byd.

Dywedodd wrthym: 'Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i.'

3. THE LITURGY OF CONFIRMATION

(1) The Decision.

The bishop addresses the candidates and their sponsors.

You have declared your wish to be confirmed.
We therefore now invite you to respond to Christ's call.

Do you turn to Christ?
I turn to Christ.

Do you repent of your sins?
I repent of my sins.

Do you renounce evil?
I renounce evil.

(2) The Profession of Faith.

We invite you now to profess the Christian faith.

Do you believe in God the Father, the Creator of all?
I believe and trust in God the Father.

Do you believe in his Son Jesus Christ, the Saviour of the world?
I believe and trust in God the Son.

Do you believe in the Holy Spirit, the Lord, the Giver of life?
I believe and trust in God the Holy Spirit.

The bishop addresses the congregation:

This is the faith of the Church.
This is our faith.
We believe and trust in one God,
Father, Son and Holy Spirit.

(3) The Baptism

If there are any candidates for baptism, they shall be baptized here.

(i) The Signing with the Cross

The bishop continues:

By his cross and precious blood, our Lord Jesus Christ has redeemed the world. He has told us that, if any want to become his followers, they must deny themselves, take up their cross and follow him day by day.

Mae'r esgob yn nodi arwydd y groes ar dalcen pob un sydd i'w fedyddio gan ddweud:

E, yr wyf yn dy nodi di ag arwydd y groes ac yn dy hawlio i'n Gwaredwr Iesu Grist.

Ar ôl i bob ymgeisydd am fedydd gael ei nodi ag arwydd y groes â'r Esgob rhagddo:

Na fydded arnat / arnoch fyth gywilydd i gyffesu ffydd y Crist croeshoeliedig.

Ymladd(wch) yn wrol yn erbyn pechod, y byd a'r diafol,

a bydd(wch) ffyddlon i Grist tra byddi / byddwch byw. Amen.

(ii) Bendithio Dŵr y Bedydd

Mae'r esgob yn dewis un o'r ffurfiau isod i fendithio'r dŵr:

NAILL AI

Diolchwn i ti, O Dduw:

bendithiwn dy enw sanctaidd.

Am dy rodd o ddŵr i feithrin a chynnal pob bywyd,

rhoddwn iti ddiolch a moliant.

Trwy ddyfroedd y môr

arweiniaist blant Israel o gaethwasaeth i ryddid;

rhoddwn iti ddiolch a moliant.

Ar achlysur ei fedydd eneiwyd dy Fab Iesu â'r Ysbryd Glân;

rhoddwn iti ddiolch a moliant.

Trwy rym yr un Ysbryd, sancteiddia'r dŵr hwn,

fel y bo i'th blant a olchir ynddo

gael eu gwneud yn un â Christ yn ei farwolaeth a'i atgyfodiad.

Glanha hwy, a'u gwared rhag pob pechod;

dwg hwy i enedigaeth newydd yn nheulu dy Eglwys,

a gwna hwy'n etifeddion dy deyrnas:

trwy Iesu Grist ein Harglwydd

a gyfodaist, trwy rym yr Ysbryd,

i fyw gyda thi am byth. **Amen.**

NEU

The bishop makes the sign of the cross on the forehead of each one who is to be baptized, saying:

N, I sign you with the sign of the cross and claim you for our Saviour Jesus Christ.

When all the candidates for baptism have been signed with the cross, the bishop continues:

Never be ashamed to confess the faith of Christ crucified.

**Fight valiantly against sin, the world and the devil,
and remain faithful to Christ to the end of your life. Amen.**

(ii) The Blessing of the Baptismal Water.

The bishop blesses the water using one of these forms.

EITHER

We give thanks to you, O God:
we bless your holy name.

For your gift of water to nourish and sustain all life,
we give you thanks and praise.

Through the waters of the sea
you led the children of Israel from slavery to freedom:
we give you thanks and praise.

At his baptism, your Son Jesus was anointed with the Holy Spirit:
we give you thanks and praise.

Through the power of that same Spirit, sanctify this water
that your children who are washed in it
may be united with Christ in his death and resurrection.
Cleanse and deliver them from all sin;
bring them to new birth in the family of your Church
and make them inheritors of your kingdom:
through Jesus Christ our Lord
whom, by the power of the Spirit,
you raised to live with you
for ever and ever. **Amen.**

OR

Molwch Dduw, a wnaeth nefoedd a daear,
sy'n cadw ei addewid hyd byth.

Dad nefol, diolchwn i ti
am dy gariad yn y cread
ac am y rhodd o ddŵr
i gynnal a glanhau ac adnewyddu pob creadur byw.

Diolchwn iti am y cyfamod a wnaethost
â'th bobl yn y dyddiau a fu;
tywysaist hwy trwy'r môr o gaethwasaeth i ryddid.

Diolchwn iti am i'th Fab Iesu
gael ei fedyddio gan Ioan yn nyfroedd yr Iorddonen
a'i eneinio â'r Ysbryd Glân.
Trwy ei angau ar y groes a'i atgyfodiad,
daeth â maddeuant i ni, a'n rhyddhau.

Diolchwn iti am dy fod, yn nyfroedd y bedydd,
yn ein glanhau o bechod,
yn ein hadnewyddu â'th Ysbryd
ac yn ein cyfodi i fywyd newydd.

Sancteiddia'r dŵr hwn, fel y bo i'th blant a olchir ynddo
gael eu gwneud yn un â Christ.
Er cyflawni d'addewid
eneinia hwy â'th Ysbryd Glân;
dwg hwy i enedigaeth newydd yn nheulu dy Eglwys,
a dyro iddynt ran yn dy deyrnas:
trwy Iesu Grist ein Harglwydd,
a gyfodaist, trwy rym yr Ysbryd,
i fyw gyda thi am byth. **Amen.**

(iii) Y Bedyddio.

Mae'r esgob yn bedyddio pob ymgeisydd, gan ddweud:

*E, yr wyf yn dy fedyddio di yn Enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân. **Amen.***

Gall yr esgob eneinio pob plentyn bach a fedyddiwyd, ond nad yw'n cael ei gonffyrmio, â chrym ar y corun, gan ddweud:

*Bydded i Dduw, a'th dderbyniodd di trwy fedydd i'w Eglwys, dywallt arnat olud ei ras. Fel yr eneiniodd Crist yn offeiriad, yn broffwyd ac yn frenin, gwneled di beunydd yn unffurf ac unwedd ag ef. **Amen.***

Gall yr esgob neu aelod o'r gynulleidfa wisgo pob un sydd newydd ei fedyddio mewn gwisg wen, gan ddweud:

Gwisgwyd di â Christ a'th gyfodi i fywyd newydd ynddo ef.

Praise God who made heaven and earth:
who keeps his promise for ever.

Heavenly Father, we thank you
for your love in creation
and for the gift of water
to sustain, cleanse and refresh all living creatures.

We thank you for the covenant you made
with your people of old:
you led them through the sea from slavery to freedom.

We thank you that, in the waters of the Jordan,
your Son Jesus was baptized by John
and anointed with the Holy Spirit.
By his death on the cross and his resurrection,
he has brought us forgiveness and set us free.

We thank you that in the waters of baptism
you cleanse us from sin,
renew us by your Spirit
and raise us to new life.

Sanctify this water so that your children who are washed in it
may be made one with Christ.
In fulfilment of your promise,
anoint them with your Holy Spirit,
bring them to new birth in the family of your Church
and give them a share in your kingdom:
through Jesus Christ our Lord
whom, by the power of the Spirit,
you raised to live with you
for ever and ever. **Amen.**

(iii) The Baptism.

The bishop baptizes each candidate, saying:

N, I baptize you in the Name of the Father, and of the Son, and of the Holy Spirit. **Amen.**

Any small children who have been baptized but are not to be confirmed on this occasion may be anointed on the crown of the head with chrism by the bishop, who says:

May God, who has received you by baptism into his Church, pour upon you the riches of his grace. As Christ was anointed priest, prophet and king, may you daily be conformed to his image. **Amen.**

The bishop or a member of the congregation may clothe each of the newly baptized in a white garment, saying:

You have been clothed with Christ and raised to new life in him.

[(iv) Cyflwyno'r Goleuni.

Gall yr esgob neu aelod o'r gynulleidfa roi kannwyll wedi ei chynnau i bob un sydd newydd ei fedyddio:

Derbyniaist oleuni Crist;
rhodia yn ei oleuni holl ddyddiau dy fywyd.
**Llewyrcha fel goleuni yn y byd
er gogoniant i Dduw'r Tad.]**

(4) Y Conffyrmio.

Mae'r esgob yn sefyll ac yn estyn ei ddwylo/dwylo tuag at y sawl a gonffyrmir, gan ddweud:

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
rhoddaist i'th *wasanaethydd / wasanaethyddion* enedigaeth newydd
yn y bedydd, drwy ddŵr a'r Ysbryd Glân,
a maddeuaist *ei / eu* holl bechodau.
Tywallt dy Ysbryd Glân *arno / arni / arnynt*:
Ysbryd doethineb a deall,
Ysbryd cyngor a nerth oddi mewn,
Ysbryd gwybodaeth a gwir dduwioldeb,
a boed iddynt ymhyfrydu yn eu parch at yr Arglwydd. **Amen**

Mae'r esgob yn annerch pob ymgeisydd wrth ei enw:

E, mae Duw wedi dy alw wrth dy enw a'th wneud yn eiddo iddo'i hun.

Mae'r esgob yn gosod ei law/llaw dde ar ben pob ymgeisydd, ac yn dweud:

Cyfnertha, O Arglwydd, dy *was / wasanaethferch* â'th ras nefol
ac eneinia *ef / hi* â'th Ysbryd Glân;
cynysgaedda *ef / hi* â'r gallu i'th wasanaethu
a chadw *ef / hi* yn y bywyd tragwyddol. **Amen.**

[(iv) The Giving of the Light.

The bishop or a member of the congregation may give a lighted candle to each of the newly baptized.

You have received the light of Christ;
walk in this light all the days of your life.

**Shine as a light in the world
to the glory of God the Father.]**

(4) The Confirmation.

The bishop, standing, extends his / her hands towards the candidates for confirmation and says:

Almighty and everlasting God,
you have given your servants new birth
in baptism by water and the Holy Spirit,
and have forgiven them all their sins.
Pour out your Holy Spirit upon them:
the Spirit of wisdom and understanding;
the Spirit of counsel and inward strength;
the Spirit of knowledge and true godliness;
and let them delight in the reverence of the Lord. **Amen.**

The bishop addresses each candidate by name:

N, God has called you by name and made you his own.

The bishop lays his / her right hand on the head of each candidate, saying:

Confirm, O Lord, your servant with your heavenly grace
and anoint *him/her* with your Holy Spirit;
empower *him/her* for your service
and keep *him/her* in eternal life. **Amen.**

(5) Ymrwymo i fod yn Ddisgybl i Grist

Gall yr Ymrwymo ddigwydd fan hyn neu gellir ei symud i Adran 7: Yr Anfon Allan, i'w arfer yn union cyn y Fendith.

Y mae'r esgob yn cyfarch yr ymgeisydd / ymgeiswyr

E (ac E), gan dy fod / eich bod bellach wedi dy / eich adnewyddu â dawn yr Ysbryd Glân yr wyf yn gofyn i ti / chwi ymrwymo i waith cenhadol Duw.

A thithau'n ddisgybl i Grist, a wnei di / wnewch chwi barhau yn nysgeidiaeth a chymdeithas yr Apostolion, yn nhorri'r bara ac yn y gweddïau?

Â chymorth Duw, fe wnaif

A wnei di / wnewch chwi gyhoeddi Newyddion Da y Deyrnas ar air a gweithred a cheisio dwyn eraill i gyfranogi o gariad Duw?

Â chymorth Duw, fe wnaif.

A wnei di / wnewch chwi barhau i dyfu yn y ffydd a chefnogi credinwyr newydd ar eu taith gyda Christ?

Â chymorth Duw, fe wnaif.

A wnei di / wnewch chwi garu dy gymydog / eich cymydog fel y mae'r Efengyl yn gorchymyn a cheisio gwasanaethu eraill, gan ddilyn esiampl Iesu?

Â chymorth Duw, fe wnaif.

A wnei di dy ran / wnewch chi eich rhan yn y gymdeithas trwy herio anghyfiawnder o bob math a thrwy geisio heddwch a chymod?

Â chymorth Duw, fe wnaif.

A wnei di / wnewch chwi ymdrechu i ddiogelu'r greadigaeth rhag ei llygru, a chynnal ac adnewyddu bywyd y ddaear?

Â chymorth Duw, fe wnaif.

[Gall yr esgob annerch yr holl gynulleidfa:

Bobl Dduw, a chithau'n ddisgyblion i Grist a wnewch chwi adnewyddu eich ymrwymiad i waith cenhadol Duw yn y byd?

Â chymorth Duw, fe wnawn.]

Bydded i'r Hollalluog Dduw,
yr anfonodd ei Fab Iesu Grist ei ddilynwyr allan i'r holl fyd,
barhau i'ch cyfnerthu â'r Ysbryd Glân,
a rhoi ichwi'r gallu i fod yn dystion i Grist
er gogoniant ei enw a lledaeniad teyrnas Dduw. **Amen.**

(5) Commitment to Christian Discipleship

The Commitment to Christian Discipleship may be used here or transferred to Section 7: The Sending Out for use immediately before the Blessing.

The bishop addresses the candidate(s)

N (and N), now that you have been renewed with the gift of the Holy Spirit I ask you to commit yourselves to the work of God's mission.

As a disciple of Christ will you continue in the Apostles' teaching and fellowship, in the breaking of bread, and in the prayers?

With the help of God, I will.

Will you proclaim in word and action the Good News of the Kingdom and seek to bring others to share in God's love?

With the help of God, I will.

Will you continue to grow in the faith and encourage new believers on their journey with Christ?

With the help of God, I will.

Will you love your neighbour as commanded in the Gospel and seek to serve others after the example of Jesus?

With the help of God, I will.

Will you play your part in society by challenging injustice of every kind and by pursuing peace and reconciliation?

With the help of God, I will.

Will you strive to safeguard the integrity of creation, and sustain and renew the life of the earth?

With the help of God, I will.

[The bishop may address the whole congregation:

People of God, will you renew your commitment, as disciples of Christ, to the work of God's mission in the world?

With the help of God, we will.]

May Almighty God,
whose Son Jesus Christ sent his followers out into all the world,
continue to empower you with the Holy Spirit,
and equip you to be witnesses for Christ
for the glory of his name and the advancement of God's kingdom. **Amen.**

Pan na weinyddir y confyrmasiwn oddi mewn i wasanaeth y Cymun, gellir defnyddio'r Colectau a ganlyn.

Ysbryd Glân, a anfonwyd gan y Tad,
cyneua ynom dy dân sanctaidd;
cryfha dy blant â'r rhodd o ffydd,
adfywia dy Eglwys ag anadl cariad,
ac adnewyddu wyneb y ddaear,
drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.** ¹

Hollalluog a thragwyddol Dduw,
gweddiwn dros dy wasanaethyddion hyn,
y bu i ni, yn ôl esiampyl dy Apostolion sanctaidd,
osod ein dwylo arnynt yn awr.
Bydded dy law dadol fyth arnynt;
bydded dy Ysbryd Glân yn wastadol gyda hwy;
ac felly tywys hwy i wybod dy Air a'i gyflawni'n ffyddlon
fel y cânt yn y diwedd fywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

4. Y TANGNEFEDD.

Gellir darllen brawddeg addas o'r Ysgrythur.

Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser.
A hefyd gyda thi.

Gellir cyfnewid arwydd tangnefedd.

5. Y CYMUN

Ac eithrio ar yr achlysuron a nodir yn Nodyn Cyffredinol 4, gellir defnyddio un o'r rhaglithiau a ganlyn:

... A esgynnodd i'w orsedd nefol ar dy ddeheulaw
a thrwyddo yr wyt yn tywallt
dy Ysbryd Glân ar dy bobl:
Ysbryd doethineb a deall,
Ysbryd cyngor a nerth oddi mewn,
Ysbryd gwybodaeth a gwir dduwioldeb,
a'n dwg ni i fawrygu a pharchu'r Arglwydd.

... Anfonaist ef i fod yn Waredwr y byd,
ac y mae ef yn ein hanfon ninnau i gyhoeddi'r newyddion da
ac i wneud ffordd y gwirionedd yn hysbys.

Dylai'r rhai sydd newydd eu conffirmio dderbyn y Cymun Bendigaid cyn aelodau eraill y gynulleidfa.

When confirmation is not conducted within the context of the Holy Eucharist the following Collects may be used.

Holy Spirit, sent by the Father,
ignite in us your holy fire;
strengthen your children with the gift of faith,
revive your Church with the breath of love,
and renew the face of the earth,
through Jesus Christ our Lord. **Amen.** ¹

Almighty and everliving God,
we pray for these your servants,
upon whom, after the example of your holy Apostles,
we have now laid our hands.
May your fatherly hand ever be over them;
may your Holy Spirit ever be with them;
and so lead them in the knowledge and obedience of your Word,
that in the end they may obtain everlasting life;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

4. THE PEACE.

An appropriate sentence of Scripture may be read.

The peace of the Lord be with you always.
And also with you.

A sign of peace may be exchanged.

5. THE EUCHARIST.

Except on the occasions specified in General Note 4, one of the following prefaces may be used:

... Who ascended to his heavenly throne at your right hand
and through whom you pour out
the Holy Spirit upon your people:
the Spirit of wisdom and understanding,
the Spirit of counsel and inward strength,
the Spirit of knowledge and true godliness
and of the reverence of the Lord.

... You sent him to be the Saviour of the world,
and he sends us to proclaim the good news
and to make known the way of truth.

The newly confirmed should receive Holy Communion before the other members of the congregation.

Ar ôl y Cymun, diweddir y gwasanaeth ag Adran 7.

6. GWEDDIAU PAN NA FO CYMUN.

Oni weinyddir y Cymun Bendigaid, bydd y gwasanaeth yn diweddu â Gweddi'r Arglwydd, ynghyd ag un neu ragor o weddïau addas eraill, a dilynir hynny gan y fendith a'r anfon allan yn Adran 7.

Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
Deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara
beunyddiol;
a maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf,
ond gwared ni rhag yr un drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
am byth. Amen.**

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni,
gweddiwn yn hyderus:
**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.
Amen.**

Hollalluog a thragwyddol Dduw
bydded dy law dadol ar dy blant hyn;
bydded i'th Ysbryd Glân fod gyda hwy'n wastadol
cyfnertha hwy'n barhaus â Chorff a Gwaed dy Fab;
ac felly arwain hwy i wybod dy Air a'i gyflawni'n ffyddlon,
fel y bydd iddynt dy wasanaethu di yn y bywyd hwn
a byw gyda thi am byth yn y bywyd sydd i ddod;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Y mae'r gweddïau ôl-gymun yn Adran 7 yn addas i'w defnyddio yn y fan hon.

Os bedyddiwyd plant bach gellir ychwanegu gweddïau addas eraill o'r Drefn ar gyfer Bedydd Cyhoeddus Babanod.

After Communion, the service concludes with Section 7.

6. PRAYERS WHEN THERE IS NO EUCHARIST.

If the Holy Eucharist is not celebrated, the service concludes with the Lord's Prayer and one or more other appropriate prayers, followed by the blessing and dismissal from Section 7.

Let us pray with confidence to the Father:

**Our Father in heaven
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread
Forgive us our sins
as we forgive those who sin
against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.
For the kingdom, the power,
and the glory are yours
now and forever.
Amen.**

As our Saviour has taught us, we boldly pray:

**Our Father who art in heaven
hallowed be thy name
thy kingdom come;
thy will be done
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread,
And forgive us our trespasses
As we forgive those who trespass
against us.
And lead us not into temptation;
but deliver us from evil.
For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever.
Amen.**

Almighty and everlasting God,
let your fatherly hand be over these your children;
let your Holy Spirit ever be with them;
strengthen them continually with the Body and Blood of your Son;
and so lead them in the knowledge and obedience of your Word,
that they may serve you in this life
and live with you for ever in the life to come;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The post-communion prayers from Section 7 are suitable for use at this point.

If small children have been baptized, further appropriate prayers may be added from the Order for the Public Baptism of Infants.

7. YR ANFON ALLAN.

Gellir defnyddio'r gweddiâu ôl-gymun isod:

Hollalluog Dduw,
y mae dy Ysbryd Glân yn cynysgaeddu'r Eglwys
ag amrywiaeth gyfoethog o ddoniau,
caniatâ i ni allu eu defnyddio i ddwyn tystiolaeth i Grist
trwy fywydau wedi eu seilio ar ffydd a chariad.
Gwna ni'n barod i fyw ei efengyl
ac yn eiddgar i wneud ei ewyllys,
fel y gallwn gyfranogi, gyda'th holl Eglwys,
o lawenydd y bywyd tragwyddol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

**Dragwyddol Dduw,
datgelaist yng Nghrist
lawnder pwrpas dy gariad:
boed inni fyw trwy ffydd,
rhodio mewn gobaith
a'n cyflenwi â chariad adfywiol,
nes bod y byd yn adlewyrchu dy ogoniant di,
a thithau'n oll yn oll.
Boed felly; tyrd, Arglwydd Iesu! **Amen.****

Dewiser y fendith o blith y ffurfiau isod:

Naill ai

Bydded i Ysbryd y gwirionedd eich tywys i bob gwirionedd,
rhoi gras i chwi dystiolaethu fod Iesu Grist yn Arglwydd
a chyhoeddi gair nerthol Duw a'i fawrion weithredoedd...

neu

Bydded i Dduw ddeffro ynoch ddoniau ei Ysbryd, fel y gallwch dystiolaethu i Grist yr
Arglwydd a chyhoeddi llawenydd yr efengyl dragwyddol ...

[a] bendith Duw Hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo
gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Yn ddisgyblion a phererinion, wedi eich llenwi â nerth yr Ysbryd,
ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd.
Yn enw Crist. Amen.

Neu, yn nhymor y Pasg:

Yn ddisgyblion a phererinion, wedi eich llenwi â nerth yr Ysbryd,
ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd. Alelwia! Alelwia!
Yn enw Crist. Alelwia! Alelwia!

7. THE SENDING OUT.

The following post-communion prayers may be used:

Almighty God,
whose Holy Spirit equips the Church
with a rich variety of gifts:
grant that we may use them to bear witness to Christ
by lives built on faith and love.
Make us ready to live his gospel
and eager to do his will,
that we may share with all your Church
in the joys of eternal life;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

**Eternal God,
you have declared in Christ
the fulness of your purpose of love:
may we live by faith,
walk in hope
and be renewed in love,
until the world reflects your glory,
and you are all in all.
Even so; come, Lord Jesus! Amen.**

The blessing may be introduced with one of the following.

Either

The Spirit of truth lead you into all the truth, give you grace to witness that Jesus Christ is Lord, and to proclaim the mighty word and works of God ...

or

God stir up in you the gifts of his Spirit, that you may witness to Christ the Lord and proclaim the joy of the eternal gospel ...

[and] the blessing of God almighty, the Father, the Son, and the Holy Spirit,
be among you and remain with you always. **Amen.**

As disciples and pilgrims, filled with the power of the Spirit,
go in peace to love and serve the Lord.
In the name of Christ. Amen.

Or, in Eastertide

As disciples and pilgrims, filled with the power of the Spirit,
go in peace to love and serve the Lord. Alleluia! Alleluia!
In the name of Christ. Alleluia! Alleluia!

Cydnabyddiaeth

Daw'r dyfyniad o'r Common Worship Additional Collect for the Day of Pentecost ©
The Archbishops' Council, 2000, a chaiff ei atgynhyrchu â chaniatâd. Cedwir pob
hawl. copyright@churchofengland.org

Acknowledgement

¹ Taken from Common Worship Additional Collect for the Day of Pentecost © The Archbishops' Council, 2000, and is reproduced by permission. All rights reserved. copyright@churchofengland.org